

Beth yw'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil?



Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, corff newydd a noddir gan Lywodraeth Cymru, ac yn diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Bydd y Comisiwn, a fydd yn weithredol yn 2024, yn gyfrifol am gyllido, goruchwyllo, ansawdd a rheoleiddio pob addysg drydyddol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys:

- Addysg bellach (AB), gan gynnwys colegau a chweched dosbarth mewn ysgolion
- Addysg uwch (AU), gan gynnwys ymchwil ac arloesi
- Addysg oedolion a dysgu oedolion yn y gymuned
- Prentisiaethau a hyfforddiant.

Gweledigaeth Strategol



Gan weithio gyda'n gilydd, byddwn yn darparu sector Addysg Drydyddol ac Ymchwil fwy ymgysylltiol, rhagorol a theg yng Nghymru sy'n blaenoriaethu buddiannau dysgwyr ac yn cyfrannu at ffyniant cenedlaethol. Rydym am weld system gydgyssyllfiedig yng Nghymru sy'n hawdd i bob dysgwr ei lywio, sy'n cael ei gwerthfawrogi gan y cyhoedd, yn creu cymdeithas fedrus iawn, yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, sy'n cael ei chydabod yn fyd-eang am addysg, hyfforddiant, ymchwil ac arloesi rhagorol, ac sydd â chenhadaeth ddinesig wrth ei chalon.

Bydd ein dull gweithredu yn galluogi dysgwyr i symud yn ddi-dor o addysg orfodol i addysg drydyddol, gan gyfrannu at ein cenhadaeth genedlaethol ar gyfer diwygio addysg.

Ymgysylltu â dysgwyr a'u cefnogi



Bydd gan y Comisiwn ddyletswydd statudol i baratoi, ymgynghori a chyhoeddi Cod Ymgysylltu â Dysgwyr. Bwriad y Cod hwn yw sicrhau bod buddiannau dysgwyr yn cael eu cynrychioli a bod dysgwyr yn cael cyfle i roi eu barn i ddarparwyr am yr addysg y maent yn ei chael a chymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau gan y darparwyr hynny. Bydd angen i ddarparwyr addysg uwch cofrestredig gydymffurfio â gofynion y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr.

Efallai y bydd y Comisiwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg uwch lunio Cynllun Diogelu Dysgwyr, sy'n nodi sut y bydd darparwr yn diogelu buddiannau dysgwyr pe bai tarfu ar gwrs neu gwrs yn cau a sut y gallai darparwyr hwyluso trosglwyddo dysgwyr i ddarparwyr eraill.

Cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol



Bydd gofyn i'r Comisiwn sefydlu cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol. Bydd y gofrestr yn fecanwaith cyfreithiol lle mae goruchwyliaeth reoleiddiol briodol a chymesur yn cael ei chymhwyso i ddarparwyr addysg drydyddol cofrestredig sy'n derbyn arian cyhoeddus, gan gynnwys cyllid grant gan y Comisiwn a chymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru.

Cynigir y bydd angen i ddarparwyr addysg uwch gofrestru i sicrhau bod eu cyrsiau perthnasol yn cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru.

I gofrestru, rhaid i ddarparwr fodloni amodau cofrestru cychwynnol sy'n ymwneud ag ansawdd addysg, llywodraethu a rheolaeth, cynaliadwyedd ariannol, effeithiolrwydd trefniadau'r darparwr ar gyfer cefnogi a hyrwyddo llesiant ei fyfyrwyr a'i staff, a phan fo trefniadau dilysu ar waith effeithiolrwydd y trefniadau hynny.

Bydd y Comisiwn yn gosod amodau parhaus y mae'n rhaid i ddarparwyr cofrestredig eu bodloni i aros ar y gofrestr.

TAFLEN FFEITHIAU 3: SUT BYDD SEFYDLU'R COMISIWN ADDYSG DRYDYDDOL AC YMCHWIL YN EFFEITHIO AR BRIFYSGOLION A DARPARWYR ADDYSG UWCH ERAILL?

Ansawdd y ddarpariaeth



Bydd y Comisiwn yn sicrhau ac yn hyrwyddo gwelliant yn ansawdd addysg drydyddol a bydd yn datblygu fframwaith ar gyfer gwella ansawdd ar draws addysg ôl-orfodol yng Nghymru yn seiliedig ar egwyddorion a rennir.

Bydd dyletswydd arno i sicrhau bod asesiadau ansawdd yn cael eu cynnal ar addysg uwch a ddarperir gan neu ar ran pob darparwr cofrestredig a bydd ganddo'r pŵer i ddynodi corff i arfer ei swyddogaethau asesu.

Bydd y Comisiwn yn datblygu ac yn cyhoeddi canllawiau a gwybodaeth ar feini prawf a phrosesau ar gyfer asesu ansawdd, rolau a chyfrifoldebau aseswyr a darparwyr, a datblygiad proffesiynol y gweithlu.


Cydweithredu



Bydd gan y Comisiwn ddyletswydd statudol i hyrwyddo mwy o gydweithio mewn addysg drydyddol, gan annog darparwyr i weithio gyda'i gilydd er budd dysgwyr a busnesau mewn ffordd sy'n cyd-fynd yn well ag anghenion addysg a hyfforddiant lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Bydd sefydlu'r Comisiwn hefyd yn agor cyfleoedd newydd ar gyfer cydweithredu â chyrrff allanol mewn ymchwil ac arloesi.

Trefniadau pontio



Bydd y system gofrestru newydd yn disodli'r drefn oruchwyllo rheoleiddio addysg uwch gyfredol a weithredir gan CCAUC o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

Bydd hyn yn gofyn am gyfnod pontio er mwyn iddo ddigwydd yn effeithiol. Bydd y gweithredu fesul cam hwn yn caniatáu i ddarparwyr a'r Comisiwn weithio gyda'i gilydd i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i ddysgwyr. Bydd y Comisiwn hefyd yn cael y cyfle i ddarparu eglurder i'r sector ehangach, darparwyr unigol a dysgwyr o ran yr hyn sy'n cael ei newid.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government